Yng Nghymru, bob blwyddyn mae rhwng 300 a 350 o bobl yn marw trwy hunanladdiad. Er bod achosion hunanladdiad yn gymhleth, rydyn ni'n gwybod bod yna ffactorau sy'n cynyddu'r risg i grwpiau ac unigolion penodol. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys iechyd meddwl gwael, amddifadedd, rhywedd a chamddefnyddio alcohol.

Hunanladdiad yw achos mwyaf marwolaeth ymysg dynion iau na 45 oed yn y Deyrnas Unedig, a dynion oedd 76% o'r holl bobl a fu farw trwy hunanladdiad yn 2014. Mae dynion bedair gwaith yn fwy tebygol o farw trwy hunanladdiad na menywod yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru; mae'r gyfradd ar ei huchaf ers 1981. Yn 2014, dynion oedd 81% o'r holl bobl a fu farw trwy hunanladdiad yng Nghymru.

Mae'r cyswllt rhwng amddifadedd economaidd gymdeithasol a risg uwch o hunanladdiad wedi'i hen sefydlu. Mae astudiaethau academaidd blaenorol wedi dangos inni, er enghraifft, bod gan ddynion o'r grŵp economaidd gymdeithasol isaf sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifad fwy o risg o hunanladdiad na'r rheiny yn y grŵp mwyaf cefnog sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf cefnog. Mae gan bob ardal leol yng Nghymru ddaearyddiaeth, economi a phoblogaeth unigryw. Mae'n dilyn y bydd proffil amddifadedd a risg cysylltiedig hunanladdiad hefyd yn amrywio rhwng poblogaethau lleol.

Mae amrywiaeth y ffactorau cymhleth sydd ynghlwm wrth risg hunanladdiad yn pwysleisio'r angen am weithredu amlasiantaethol a thrawslywodraethol. Nid un gorchwyl i unrhyw sefydliad neu sector penodol ar ei ben ei hun yw hon. Yn lle hynny, mae'n rheidrwydd lleol a chenedlaethol ac yn un y dylid rhoi iddo flaenoriaeth fawr a thaer ar agenda genedlaethol iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'n rhaid inni allu rhoi i bobl y cyfle gorau i weddnewid eu bywydau pan fônt yn cael trafferth.

Yng Nghymru, rydyn ni'n gweithio i leihau hunanladdiadau ar draws ein gwlad. Rydyn ni'n estyn allan at grwpiau a chymunedau risg uchel, rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth gyda charchardai, ysgolion, ysbytai a staff y rheilffyrdd ac rydyn ni'n ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol i ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth.

Mae ein naw cangen yn rheoli ein gwasanaeth cymorth emosiynol, yn estyn allan i'w cymunedau lleol, ac yn cynorthwyo'r rheiny sy'n cael trafferth i ymdopi, bob awr o'r dydd a'r nos, bob un dydd o'r flwyddyn. Mae'r galw am ein gwasanaeth yn tyfu – cymerasom alwad bob tri munud y llynedd. Ni fyddai dim o hyn yn bosibl heb amser ac ymroddiad ein gwirfoddolwyr.

Mae'r Samariaid yn credu bod angen sylweddol i gynyddu'r ymwybyddiaeth o bŵer siarad ac empathi dynol. Er mwyn gwneud hyn, rhaid inni herio ein diwylliant presennol a all atal pobl yn y Deyrnas Unedig rhag ceisio cymorth pan rydyn ni ei angen oherwydd cywilydd neu stigma. Mae pawb yn cael adegau yn eu bywydau pan maen nhw'n cael trafferth i ymdopi ac rydyn ni'n credu, o gael yr amser a'r lle i siarad am bethau, y gall pobl yn aml ddod o hyd i ffordd trwy eu problemau. Y llynedd, ymddiriedodd bron 275,000 o alwyr ynom ni ddigon i'w helpu trwy adeg anodd dros y ffôn.

Mae lleihau hunanladdiad yn galw am ymagwedd sy'n hybu iechyd a lles meddyliol da, cymorth amserol ac ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, ac sy'n lleihau anghydraddoldeb. Rydyn ni wedi croesawu ail gam Strategaeth a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed, 'Siarad â Fi 2'. Mae bodolaeth cynlluniau o'r fath, a gwaith effeithiol i'w gweithredu, yn hanfodol i'r ymdrechion i leihau hunanladdiad. Fodd bynnag, mae angen inni weithredu'n gryfach ac yn fwy cyson ledled Cymru er mwyn mynd i'r afael â chyfraddau hunanladdiad. Mae'r gwaith mae ei angen i wireddu hyn yn cefnogi uchelgeisiau polisi eraill i gynyddu cydnherthedd a diogelwch cymunedau, i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o geisio cymorth, ac i wella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl a therapïau siarad.

Rydyn ni wedi ymrwmo i gyrraedd cynifer ag sy'n bosibl o bobl sy'n cael trafferth i ymdopi, ac mae ein Hadroddiad ar yr Effaith 2015/16 yn dangos sut rydyn ni'n gwneud hyn.



Sarah Stone

Sarah Stone
Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru



KL

Yr Athro Keith Lloyd
Cadeirydd Bwrdd Samariaid Cymru

Samariaid Cymru

Pedwar cam i achub bywydau

1

Hybu iechyd a lles meddyliol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau

2

Gweithredu'n lleol yng Nghymru

3

Mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol i leihau achosion o hunanladdiad

4

Ein helpu i sicrhau bod gwasanaeth ffôn y Samariaid am ddim

Wedi'i gyflawni

Erbyn hyn rydym wedi cael rhif y gellir ei alw am ddim, **116 123**, a lansiwyd ar 21 Medi 2015. Ewch i'n gwefan i gael mwy o wybodaeth samaritans.org

Dylanwadu ar bolisi cyhoeddus

Fel aelodau Grŵp Cyngori Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed, rydyn ni'n dal i gyfrannu at y gwaith o weithredu Siarad â Fi 2, y strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed i Gymru 2015-2020. Drwy gydol 2015/16, rydyn ni wedi parhau i ymateb i amrywiaeth fawr o ymgynghoriadau gan y llywodraeth ar bynciau sy'n gysylltiedig ag atal hunanladdiad yng Nghymru ac wedi darparu dogfennau briffio perthnasol i Aelodau Cynulliad a'u staff ymchwilio.

Yn ystod Wythnos Iechyd Dynion 2015, lansiasom ein maniffesto, 'Pedwar Cam i Achub Bywydau'. Galwasom ar y Cynulliad i gymryd pedwar cam i fynd i'r afael â chyfraddau hunanladdiad a gwella iechyd a lles meddyliol cymunedau ledled Cymru. Mae'r camau'n nodi'r angen i hybu iechyd a lles meddyliol da, sefydlu cynlluniau atal hunanladdiad mewn cymunedau lleol, mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a chynorthwyo'r Samariaid i sicrhau bod ein gwasanaeth ffôn yn ddi-dâl. Yn cyd-fynd â'n maniffesto roedd lansiad i'r cyfryngau a gafodd sylw helaeth yn y wasg ac ar gyfryngau cymdeithasol trwy ein hymgyrch #4cam.

Yn y cyfnod cyn yr etholiadau, aethon ni â'n prif negeseuon i gynadleddau pleidiau a chyfarfuom ag Aelodau Cynulliad ac ymgeiswyr ar draws y wlad. Ar ôl yr etholiadau, rydyn ni wedi croesawu'r holl Aelodau Cynulliad newydd a'r rhai sydd wedi'u hailethol a Gweinidogion, ac rydyn ni'n dal i ymgysylltu â nhw i drafod amcanion polisi ar gyfer lleihau hunanladdiad.

Trwy ein haelodaeth o Gyngheir Iechyd Meddwl Cymru a Fforwm Polisi Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru, rydyn ni'n parhau i gefnogi a chyfrannu at feysydd gwaith polisi cyffredin ynghylch iechyd meddwl y cyhoedd.

Ynghyd â'n gwaith partneriaethol gydag ysgolion yn 2015/16, rydyn ni wedi hyrwyddo cynnwys iechyd emosiynol yn helaethach yn y cwricwlwm newydd ac rydyn ni'n cefnogi argymhellion Adolygiad Donaldson. Rydyn ni'n credu y dylid ystyried hybu iechyd emosiynol mewn lleoliadau addysg yn ffurf hanfodol ar waith atal ac ymyrraeth gynnar i genedlaethau'r dyfodol.



Bwrdd Samariaid Cymru'n lansio ymgyrch #4cam



Staff addysgu yng nghynllun peilot DYEG Caerdydd ac Aberdâr ar eu diwrnod cyntaf o hyfforddiant



Ein gwaith mewn ysgolion

Rydyn ni'n gweithio gydag ysgolion i gynorthwyo pobl ifanc trwy ein hadnoddau addysgu a'n gwasanaeth ymateb i hunanladdiad.

Mae Step by Step yn un o wasanaethau'r Samariaid sy'n darparu cyngor a chyfarwyddyd ymarferol i helpu ysgolion i baratoi ar gyfer effeithiau hunanladdiad neu ymgais at hunanladdiad, ac i ymadfer ohonynt, mewn ffyrdd sy'n osgoi hybu teimladau hunanladdol yn anfwriadol.

Mae DYEG (Datblygu Ymwybyddiaeth Emosiynol a Gwrando) yn set o adnoddau addysgu di-dâl ar y we sy'n cynnwys cynlluniau gwersi ar iechyd emosiynol sydd â'r nod o feithrin gwydnwch emosiynol mewn pobl ifanc (14+). Ar Ddiwrnod Atal Hunanladdiad y Byd yn 2015, lansiasom y fersiwn ddwyieithog o adnoddau DYEG yng Nghymru gyda chefnogaeth Mark Drakeford AC.

Ers inni lansio DYEG yng Nghymru, rydyn ni wedi cael cefnogaeth Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru

a gyda'n gilydd rydyn ni'n cynnal Cynllun Peilot DYEG Caerdydd ac Aberdâr, lle bydd wyth ysgol yn gweithredu rhaglen DYEG ym mlwyddyn academiaidd 2016/17.

Mae'r Samariaid hefyd yn cynnig i ysgolion sgysiau ar iechyd emosiynol, a ddarperir gan wirfoddolwyr hyfforddedig. **Dros y tair blynedd ddiwethaf, rydyn ni wedi cyrraedd 11,378 o bobl ifanc yng Nghymru, nifer sy'n record, sydd wedi cael sgwrs ar iechyd emosiynol yn eu hysgol.**

“Mae'r Samariaid yn darparu gwasanaeth hollbwysig ac rwy'n falch eu bod yn cefnogi ein strategaeth, Siarad â Fi 2, i leihau hunanladdiad a hunan-niwed. Bydd DYEG yn adnodd gwych i helpu gyda hyn ac i gynorthwyo athrawon wrth hybu iechyd a lles emosiynol da. Bydd yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc drafod materion anodd mewn amgylchedd diogel a chefnogol.”

Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Medi 2015

Samariaid Cymru parhad

Ein gwaith mewn carchardai

Dechreuodd y cynllun Gwrando yng ngharchar Abertawe yn 1991, a bellach mae'n rhedeg ym mron pob carchar yn y Deyrnas Unedig, a phob carchar yng Nghymru. Mae'r cynllun Gwrando'n wasanaeth cefnogaeth gan gymheiriaid sydd â'r nod o leihau hunanladdiad a hunan-niwed mewn carchardai. Mae gwirfoddolwyr y Samariaid yn dewis, hyfforddi a chynorthwyo carcharorion i ddod yn Wrandawyr. Mae Gwrando'n rhoi cymorth emosiynol cyfrinachol i'w cyd-garcharorion sy'n cael trafferth i ymdopi.

Yn 2015, ymatebodd Gwrando yng Nghymru i fwy na 2000 o geisiadau am gymorth emosiynol gan gyd-garcharorion. Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd (NOMS) i sefydlu Cynllun Gwrando yn y carchar newydd yn Wrecsam, Carchar Berwyn, a fydd ar waith o adeg agor y carchar ym mis Chwefror 2017. Eleni, byddwn ni'n dathlu 25^{ain} pen-blwydd y cynllun Gwrando yn Abertawe, lle dechreuodd y cyfan. Cyn hyn, ymwelodd y Dywysoges Frenhinol â Charchar Abertawe a Samariaid Abertawe ym mis Chwefror 2016.

Gweithio gyda'r cyfryngau

Ers lansio ein harweiniad dwyieithog 'Canllawiau i'r Cyfryngau ar Adrodd am Hunanladdiad' yn 2014, rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu â'r cyfryngau yng Nghymru ac i gynnig cymorth ynghylch adrodd mewn modd sensitif.

Yn 2016, darparasom sesiwn hyfforddi i fwy nag 20 o newyddiadurwyr a golygyddion Media Wales. Mae'r aelodau hyn o'r staff yn gweithio ar draws Wales Online, y Western Mail a'r South Wales Echo. Cafodd yr hyfforddiant ei arwain gan y Samariaid ac roedd yn cynnwys cyflwyniad gan Dr Ann John, Cadeirydd Grŵp Cyngori Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed.

"Cawsom eich sesiwn Hunanladdiad yn y Cyfryngau o gymorth mawr. Dwi'n meddwl y bydd yn wirioneddol ddefnyddiol wrth sicrhau ein bod yn ystyried yr holl broblemau posibl wrth ymdrin â hunanladdiad yn y dyfodol."

Catrin Pascoe, golygydd y Western Mail



Y Dywysoges Frenhinol yn cyfarfod â gwirfoddolwyr cangen Abertawe o'r Samariaid

"Roedd yn fraint inni groesawu'r Dywysoges Frenhinol i'n helpu i ddathlu 25 mlynedd o'r Cynllun Gwrando. Datblygwyd y cynllun yng Ngharchar Abertawe ac yn ddi-os mae wedi achub bywydau, ac mae wedi bod mor llwyddiannus nes ei fod ar waith yn y rhan fwyaf o sefydliadau erbyn hyn. Roedd hefyd yn arloesol oherwydd, am y tro cyntaf, cafodd y carcharorion eu hyfforddi i fod yn gefnogwyr cymheiriaid."

Mitch Albutt, Llywodraethwr Dros Dro Carchar Abertawe



Lansio ein rhif ffôn y gellir ei alw am ddim

Ar 22 Medi 2015, cyflawnodd y Samariaid rywbeth a fu'n uchelgais gennym ers talwm, sef sefydlu rhif ffôn y gellir ei alw am ddim yn y Deyrnas Unedig – 116 123. Mae hwn yn gam cadarnhaol iawn wrth wella mynediad i'n cymorth sy'n achub bywydau. Gwyddom fod costau galwadau'n gallu bod yn rhwystr i ddefnyddio ein gwasanaeth, gan atal rhai pobl o bosibl rhag cysylltu â'r Samariaid pan maent ein hangen ni fwyaf. Roedd y newid yn bosibl diolch i gymorth gan y Gronfa Loteri Fawr a Vodafone, a chydweithrediad y prif gwmnïau telathrebu.

Rhoddodd lansiad 116 123 gyfle i'r Samariaid gyrraedd mwy o bobl mewn grwpiau risg uchel, yn arbennig y rheiny sy'n wynebu anawsterau ariannol, a fyddai o bosibl wedi petruso cyn ein galw yn y gorffennol. Gyda chyllid oddi wrth y Gronfa Loteri Fawr, creasom ymgyrch a'i rhedeg ar draws deg ardal beilot, gan gynnwys Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot, gan godi ymwybyddiaeth o wasanaethau'r Samariaid ac yn arbennig y llinell gymorth newydd y gellir ei ffonio am ddim. Buom yn rhedeg ymgyrch radio bedair wythnos ar Heart South Wales ym mis Ionawr a mis Chwefror a hefyd yn dosbarthu deunydd ymwybyddiaeth dwyieithog, oedd yn cyfeirio galwyr at y llinell gymorth Gymraeg newydd y gellir ei ffonio am ddim, yn ogystal ag at 116 123. Cydweithiodd gwirfoddolwyr o nifer o ganghennau yng Nghymru i drefnu digwyddiadau allestyn mewn canolfan siopa leol ym Mhort Talbot. Trwy'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Lleol, buont hefyd yn dosbarthu deunydd ymwybyddiaeth i alwyr i weithwyr yng ngwaith dur Tata.

Yn 2016, roeddem wrth ein bodd i lansio rhif y gellir ei alw am ddim i'n llinell Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg (0808 164 0123). Gwyddom fod cael cymorth emosiynol yn eich iaith gyntaf yn hanfodol a'n gobaith yw y bydd gwaith i hyrwyddo'r llinell yn sicrhau y cyrhaeddwn ragor o bobl yng Nghymru. Mae'r llinell ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 7 i 11pm.



Samariaid Cymru parhad

Prosiect Cymoedd y De

Bu'n uchelgais gan y Samariaid ers talwm i sefydlu presenoldeb yng Nghymoedd y De. Mae ymchwil yn dangos bod cysylltiad rhwng nifer yr hunanladdiadau a chymunedau mwy difreintiedig, ac ymddengys fod y bwlbch hwn yn lledu yng Nghymru.

Nod ein Prosiect Peilot Cymoedd y De yw darparu cymorth i unigolion, yn eu cymunedau, ledled Cymoedd y De. Mae'r prosiect yn ceisio lleihau tralod emosiynol a lleihau risg hunanladdiad yn y Cymoedd trwy ei gwneud yn haws defnyddio gwasanaeth cymorth emosiynol y Samariaid a hybu ymddygiad ceisio cymorth. Lansiasom y prosiect ym mis Hydref 2015 gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, a Huw Lewis AC.

Ers ei lansio, mae'r prosiect wedi cymryd camau breision yng Nghymoedd y De. Rydyn ni wedi cynnig cymorth emosiynol ac allgymorth mewn nifer o leoedd blaenoriaethol lle mae pobl ein hangen fwyaf, megis **banciau bwyd**, **canolfannau gwaith a fferyllfeydd**. Rydym yn ddiolchgar iawn am gymorth Sefydliad Waterloo sydd wedi gwneud y prosiect hwn yn bosibl.

Feet on the street

Y shifft gyntaf i godi ymwybyddiaeth a chynnig cymorth emosiynol oedd 'Feet on the Street' ym Merthyr Tudful. Yn ystod y gwaith allgymorth hwn, mae gwirfoddolwyr yn mynd â fan y Samariaid i leoedd prysur yng nghanol trefi i godi ymwybyddiaeth o'r Samariaid a chynnig cymorth emosiynol wyneb yn wyneb i'r cyhoedd. Mae'r sesiynau hyn, a gynhelir gyda'r nos ac yn ystod y nos, yn brysur yn gyson ac yn pwysleisio'r angen am ein gwasanaeth yn yr ardal hon.

Gorsaf Heddlu Bridewell ym Merthyr

Yn 2016, rydyn ni wedi sefydlu partneriaeth werthfawr iawn gyda Heddlu De Cymru trwy ein gwaith gyda gorsaf heddlu Bridewell ym Merthyr. Rydyn ni wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Samariaid i naw rhingyll dalfa sydd wedi rhaeadru'r hyfforddiant i'w cyd-swyddogion er mwyn hybu diwylliant o ymddygiad ceisio cymorth ymysg pobl a gedwir yn y ddalfa. Yn y Deyrnas Unedig, mae mwy o risg hunanladdiad a hunan-niwed yn ystod cyfnodau yn y ddalfa ac rydyn ni'n cydweithio i leddfu hyn.



Ers mis Ionawr 2016, pan gaiff unigolyn ei gadw yn y ddalfa yn yr orsaf heddlu hon, cynigir iddo alwad i'r Samariaid o'i gell. Yn ychwanegol at hynny, pan mae unigolyn yn gadael y ddalfa, rhoddir iddo ein manylion cyswllt a chynigir iddo alwad oddi wrthym ni o fewn y 24 awr nesaf. Hefyd, mae arwyddion y Samariaid yn cael eu harddangos ym mhob un o'r 42 o ddalfeydd yn yr orsaf heddlu hon.

- Hyd yma, mae'r prosiect wedi ymgysylltu â mwy na 2,000 o unigolion mewn sefydliadau yng Nghymoedd y De i godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth.
- Mae wedi rhoi sgysiau ar iechyd emosiynol i fwy na 400 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.



Gwirfoddolwyr Prosiect Cymoedd y De ar shifft Feet on the Street



Ein gwaith gyda'r diwydiant rheilffyrdd

Yn 2010 dechreuodd y Samariaid weithio gyda Network Rail gyda'r nod o atal hunanladdiadau ar y rheilffyrdd a rhoi cymorth i bobl maen nhw'n effeithio arnynt. Erbyn hyn mae Rhaglen y Diwydiant Rheilffyrdd i Atal Hunanladdiad (Rail Industry Suicide Prevention Programme/RISPP) yn bartneriaeth ar y cyd rhwng y Samariaid, Network Rail a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r diwydiant rheilffyrdd ehangach.

Yng Nghymru, mae ein partneriaeth gyda Network Rail a'n gwaith gyda'r diwydiant rheilffyrdd ehangach yn canolbwyntio ar saith maes allweddol:

- Cynnwys y diwydiant rheilffyrdd mewn gweithgareddau atal hunanladdiad a chymorth.
- Estyn allan at y rheiny sydd â'r risg uchaf.
- Hyfforddiant ar atal hunanladdiad.
- Rhoi cymorth i bobl mae digwyddiad trawmatig wedi effeithio arnynt.
- Cymorth mewn gorsafoedd ar ôl hunanladdiad.
- Gweithio gyda'r cyfryngau i hybu adrodd mewn modd cyfrifol am hunanladdiadau ar y rheilffyrdd.
- Gweithio gyda'r heddlu a gwasanaethau iechyd.

“Ar ôl pum mlynedd o bartneriaeth lwyddiannus gyda'r Samariaid, mae Tîm Atal Hunanladdiad Network Rail wedi datblygu cynllun 12 pwynt i fwrw ymlaen ag agenda atal hunanladdiad a sicrhau safon ar draws y diwydiant sy'n berthnasol i Network Rail, cwmnïau trên a threnau nwyddau a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Mae Cymru ymysg y cyntaf i fabwysiadu a gweithredu'r cynllun 12 pwynt fel rhan annatod o'r gwaith o atal hunanladdiad. Mae ei gynnwys yng nghydgynllun atal hunanladdiad Llwybrau Cymru, yn ogystal â mabwysiadu argymhellion o Siarad â Fi 2, yn sicrhau ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth i Gymru ac i'r Llwybr.

Rydyn ni wedi gwneud cynnydd da ac mae 1,400 o staff rheng flaen Trenau Arriva yng Nghymru wedi cwblhau hyfforddiant lefel sylfaenol ar atal hunanladdiad. Hefyd rydyn ni wedi symud i fodel o atal hunanladdiad sy'n caniatáu inni weithredu'n rhagweithiol ac ymateb fel grym ataliol, yn hytrach na gweithredu ar ôl digwyddiad.”

Lowenna Turner, Arweinydd Atal Hunanladdiad Llwybrau Cymru, Network Rail

Canghennau yng Nghymru



- Erbyn diwedd 2015, roedd gennym fwy na **500 o wirfoddolwyr gweithgar** yng Nghymru.
- Ein gwirfoddolwyr ymroddedig sy'n darparu a rheoli ein gwasanaeth cymorth emosiynol – mae eu hamser yn werth mwy na **£2.3 miliwn** y flwyddyn.
- Yn 2015, cawsom **175,767 o alwadau am gymorth** yng Nghymru. Roedd 10,350 o'r rhain trwy neges e-bost ac roedd 14,446 trwy neges SMS.
- Mae rhywun yn cysylltu â ni yng Nghymru **bob 3 munud**.

“Mae ein 9 cangen yng Nghymru'n gweithio bob awr o'r dydd a'r nos i reoli ein gwasanaeth cymorth emosiynol ac ar yr un pryd yn parhau i estyn allan i'w cymunedau lleol i fod yno i grwpiau risg uchel a phobl sy'n cael trafferth i ymdopi. Mae bod yn wirfoddolwr gyda'r Samariaid yn ymestynnol a hefyd yn foddhaus a hoffwn ddiolch i'r holl wirfoddolwyr yng Nghymru am eu hymroddiad diflino”

Beverley Bleasdale, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Cymru a'r Gororau



Bangor: Hyrwyddo'r llinell Gymraeg

Ers lansio ein rhif y gellir ei alw am ddim i'n llinell Gymraeg, mae cangen Bangor wedi ymdrechu i greu ymwybyddiaeth a sicrhau cyhoedduswydd iddo ledled yr ardal leol. Mae'r llinell Gymraeg ar wahân yn cael ei rhedeg gan ei gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith. Unwaith eto mae'r tîm ysgolion wedi cael blwyddyn brysur iawn wrth ymweld ag ysgolion lleol a chyflwyno rhaglenni sy'n canolbwyntio ar iechyd emosiynol, gwrando gweithredol a phwysigrwydd siarad am broblemau. Rhoddwyd y sgysiau hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg a chawsant eu teilwra i fod yn addas i oedran y gwrandawyr.

Maen nhw hefyd wedi mynd i Sioe Môn ac Eisteddfod yr Urdd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth.



Canghennau yng Nghymru parhad

Pen-y-bont ar Ogwr: Partneru gyda banciau bwyd

Yn 2015, sefydlodd Samariaid Pen-y-bont ar Ogwr bartneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Trussell, elusen annibynnol sydd â 9 banc bwyd mewn mannau ar draws y fwrdeistref. Mae hyn yn dilyn cyfnod treialu llwyddiannus pan ddarparodd gwirfoddolwyr wasanaeth allgymorth i ddau fanc bwyd gwahanol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Erbyn hyn maen nhw wedi cael cadarnhad yr hoffai Ymddiriedolaeth Trussell barhau â'r trefniant yn ddi-ben-draw.

“Mae ein gwirfoddolwyr yn ymweld â banc bwyd Porthcawl a banc bwyd Corneli unwaith yr wythnos ac yn cynnig cymorth emosiynol i'r rhai sy'n eu defnyddio, sydd yn aml ar eu gwannaf ac sydd wir yn cael trafferth yn eu bywydau.”

Gemma, gwirfoddolwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Caerdydd: dathlu 50 mlynedd o wrando

Dathlodd cangen Caerdydd a'r Cyffiniau o'r Samariaid ei phen-blwydd yn 50 oed. Mae'r gangen wedi bod yn cynnig cymorth emosiynol am 50 mlynedd ers iddi agor yn 1965. Cynhaliwyd y dathliad yn Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd. Fel rhan o'i phen-blwydd yn 50 oed, mae Samariaid Caerdydd a'r Cyffiniau wedi lansio eu menter newydd i godi arian ar gyfer gwaith adnewyddu, y mae mawr ei angen, ar eu cangen. Maen nhw'n parhau i fynd â'u neges allan i'r gymuned ehangach ac yn darparu cymorth hanfodol mewn ysgolion, ysbytai a Charchar Caerdydd.



Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Jenni McCartney, gyda gwirfoddolwr o Gangen Caerdydd yn y dathliad



Hwlfordd a Sir Benfro: 40 mlynedd oed

Yn 2016, dathlodd cangen Hwlfordd a Sir Benfro ei phen-blwydd yn 40 oed a chroesawodd ei 476^{ain} gwirfoddolwr, sy'n gamp aruthrol. Mae'r gangen hon yn cynnwys ardal ddaearyddol helaeth ac mae rhai gwirfoddolwyr yn teithio 60 milltir yno ac yn ôl ar gyfer eu shifftiau – arwydd gwirioneddol o ymroddiad.

Mae'r siop elusen, sydd ar agor am fwy na 30 awr yr wythnos, yn faner i'r Samariaid, yn ogystal â bod yn ffynhonnell hanfodol o gymorth ariannol i'r gangen. Mae tystiolaeth bod cyswllt â'r siop yn Hwlfordd wedi rhoi i bobl sy'n mynd trwy gyfnod anodd yr hyder i gymryd y cam nesaf o gysylltu â ni i gael cymorth emosiynol.

Casnewydd: Meithrin partneriaethau hollbwysig

Mae Samariaid Casnewydd a Gwent wedi bod yn ymwneud â Cruse Gwent dros y tair blynedd ddiwethaf ac wedi parhau i ddatblygu'r bartneriaeth hon dros y flwyddyn ddiwethaf. Gweledigaeth Cruse Bereavement Care Cymru yw bod gan bawb sy'n galaru rywle i droi pan mae rhywun yn marw. Fel rhan o'r bartneriaeth hon, mae gwirfoddolwyr y Samariaid yng nghangen Casnewydd yn siarad ag unigolion sy'n cael trafferth â'u galar, wrth iddyn nhw aros i gael gwasanaeth Cruse. Dyma enghraifft unigryw o waith partneriaethol llwyddiannus ac esiampl o arfer gorau i ganghennau yn y Deyrnas Unedig.

Powys: y gangen Arloesi i Gymru

Ar ôl mwy nag ugain mlynedd yn ei chartref yn Llandrindod, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod i'w gofio i'r gangen hon. Y digwyddiad mwyaf arwyddocaol oedd ei rôl 'Arloesi' i'r holl ganghennau yng Nghymru. Hefyd gosodwyd systemau cyfrifiadurol o'r math diweddaraf, gan alluogi'r gwirfoddolwyr i gymryd cyfran fwy o'r nifer gynyddol o alwadau ffôn cenedlaethol. Mae hefyd wedi'i gwneud yn bosibl i'r gangen ddyblu ei gallu i ateb negeseuon e-bost a thestun.

Yn Llandrindod, y dref sy'n gartref i'r gangen, mae siop boblogaidd y Samariaid wedi cael ei hailwampio'n llwyr gan ei thîm o wirfoddolwyr cymorth ymroddedig, sydd hefyd wedi arwain y gwaith o lwyfannu dwy sioe ffasiwn lwyddiannus iawn, y gwerthwyd pob tocyn iddynt. Mae gwirfoddolwyr y gangen hefyd wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol mawr a gynhelir ym Mhowys, sef Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanellwedd a Gŵyl Lenyddol y Gelli. Ers nifer o flynyddoedd mae'r olaf wedi cynnig cyfle i gyfuno gwaith codi arian sylweddol â gwaith effeithiol i hyrwyddo'r gwasanaeth gwrando bob awr o'r dydd a'r nos i gynulleidfaoedd mawr iawn sy'n cael eu denu i'r wyl o bob rhan o'r wlad.

Yn goron ar y flwyddyn brysur a phwysig iawn hon i'r gangen, newidiwyd ei henw o Samariaid Brycheiniog a Maesyfed i Samariaid Powys yn Llandrindod. Mae hyn yn lleoli'r gangen yn fwy effeithiol ac yn cydnabod pwysigrwydd ei pherthynas â'r sir sy'n cyflenwi nid yn unig ei gwirfoddolwyr gwrando a chymorth ond hefyd y rhan fwyaf o'r arian hanfodol mae'n ei godi.

Y Rhyl: Llwyddiant i waith allestyn i'r gymuned

Mae cangen y Rhyl wedi parhau i estyn allan i'r gymuned leol a chynyddu ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth cymorth emosiynol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, maen nhw wedi cynyddu capasiti eu tîm ysgolion ac wedi rhoi nifer o sgysiau ar iechyd emosiynol mewn ysgolion yn yr ardal leol. Maen nhw hefyd wedi dechrau ymwneud â grŵp llywio Carchar Berwyn er mwyn sicrhau y caiff gwasanaeth Gwrando y Samariaid ei sefydlu ar adeg agor y carchar newydd yn 2017.

Yn fwy lleol, trefnodd y gangen ein presenoldeb yn Eisteddfod yr Urdd, cynhaliodd ddigwyddiad codi arian ym marchnad Rhuthun, a bu'n cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn llyfrgelloedd lleol. Yn olaf, dewisodd Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych Samariaid y Rhyl fel un o'r tair elusen ddethol i gael yr elw o ddigwyddiadau elusennol lleol yn 2016.

Abertawe: Yno i'r gymuned

Eleni, mae cangen Abertawe'n dathlu 25^{ain} pen-blwydd y Cynllun Gwrando a sefydlwyd yng Ngharchar Abertawe yn 1991. Cyfarfu'r Dywysoges Frenhinol â chwe gwirfoddolwr a chyfarwyddwr Abertawe a gyflwynodd y cynllun, pan ddaeth i ddadorchuddio plac yng nghanolfan ymwelwyr y carchar.

Mae cangen Abertawe wedi parhau â'i gwaith allgymorth helaeth ynghyd â darparu sgysiau ar iechyd emosiynol mewn ysgolion lleol. Erbyn hyn mae ganddyn nhw bresenoldeb yn Yr Hwb yn Llanelli, canolfan gymunedol sy'n cynnig cymorth gyda materion fel chwilio am swydd a thai. Maen nhw hefyd yn ymweld â thŷ hanner ffordd i garcharorion sy'n aros i gael eu rhyddhau er mwyn darparu cymorth emosiynol i'r rheiny sydd ei angen. Eleni, maen nhw wedi ymweld â chanol tref Port Talbot i siarad â'r rheiny sy'n pryderu am gollu eu swydd a'r goblygiadau ariannol yn ystod argyfwng Dur Tata.

Canghennau yng Nghymru parhad



Gwobrau WCVA

Cafodd gwirfoddolwyr y Samariaid yng Nghymru eu cydnabod yng Ngwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru yn 2016. Dyfarnwyd dwy wobwr genedlaethol i ddau o wirfoddolwyr y Samariaid yng Nghymru yn y categori 'Ymddiriedolwr y Flwyddyn', sef Christopher Mill o gangen Hwlfordd a chyn Ymddiriedolwr y Samariaid o Gymru, a John Ford, Cadeirydd cangen Powys yn Llandrindod.

“Mae gwirfoddoli gyda’r Samariaid yn heriol ond yn eithriadol o foddhaus. Mae’r wobwr hon i’n cannoedd o wirfoddolwyr a chefnogwyr yng Nghymru, a’r holl bobl sy’n anobeithio ac yn pryderu y maen nhw’n eu helpu i deimlo’n fwy diogel a bod rhywun yn gwranddo arnyn nhw ac yn eu deall yn well. Ymunwch â ni – maen nhw eich angen chi.”

Christopher Mill

Y Samariaid mewn gwyliau yng Nghymru

Yn 2016, aeth ein gwirfoddolwyr i’r tair prif wyl yng Nghymru; Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd. Mae eu presenoldeb yn y digwyddiadau mawr hyn yn hanfodol i godi ymwybyddiaeth, estyn allan a recriwtio gwirfoddolwyr newydd ar draws Cymru.



Gwirfoddolwyr y Samariaid yn gweithio ar stondin prysur yn yr Eisteddfod

Yn y cyfryngau

Samaritans plan 'will reduce suicide in Wales'

SAMARITANS in Wales has today launched its project in education and to challenge mental health issues, specifically

Project to tackle suicide in Valleys

THE Samaritans will today launch a pilot project in the Valleys on the heels of re-

David Williamson
Political Editor
david.williamson@walesonline.co.uk

ITV NEWS
Live TV Shows Categories News
Top stories Your area Topics Sport Weather

ITV REPORT 19 October 2015 at 6:15am

Project aims to lower 'risk of suicide' in South Wales Valleys

A new project has been launched by the Samaritans in the South Wales Valleys, aiming to

barriers and working enhancing the energy o communities. Samaritan was no branch located i Wales Valley area and long-standing ambitio a presence there. delighted with the su ave so far received fro sations in the area." rity is now seeking v support the work in t th by listening to peo g with areas includ tive support, fundr anagement.

BBC NEWS
Sign in News Sport Weather iPlayer TV Rad

Home UK World Business Politics Tech Science Health Education Entertainment

Wales Wales Politics North West North East Mid South West South East Cymru

Suicide rate for men in Wales 'highest since 1981'

19 June 2015 | Wales

Share

Samaritans give backing to steelmen

The Samaritans deserve a hearing

THE men and women who are tasked with drafting the manifestos of Wales' political parties ahead of May's Assembly elections will be deluged with ideological proposals and demands by interest groups, lobbyists and campaigners.

Western Mail COMMENT

2013 there were 393 suicides in Wales, 317 of which involved a male taking his life.

policy. It has acute understanding of the factors that push people into the danger zone, and a clear idea of what measures are most likely to help.

Regardless of how politicians respond, individuals in Wales can seek to help themselves.

STEELWORKERS in Llanidloes elsewhere in Wales

Rhywun i siarad ag ef – mae pobl yn cysylltu â ni pan mae pethau'n mynd yn drech na nhw. Does dim rhaid iddyn nhw fod yn hunanladdol.

Rydyn ni yma bob amser – bob awr o'r dydd, bob dydd gydol y flwyddyn.

Lle diogel – fel gwirfoddolwyr rydyn ni'n bobl gyffredin, ac yn cadw ein holl sgysiau'n breifat.

Gall pobl fod yn nhw eu hunain – pwy bynnag ydyn nhw, sut bynnag maen nhw'n teimlo, beth bynnag mae bywyd wedi'i wneud iddyn nhw.

Elusen ydyn ni – rhoddion caredig y cyhoedd sy'n cadw ein llinell gymorth ar agor.

Hoffai Samariaid Cymru ddiolch i'r canlynol am gyllid neu gymorth.



Aidennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

thewaterloofoundation*

Mae gan y Samariaid Gynllun Iaith Gymraeg sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg.



Delokgywyf gwis dymorth
Gwasanaeth Cynllun Hybu Comisiynydd y Gymraeg
Developed with the support of the
Welsh Language Commissioner's Progress Plan Service

Llawr 2, 33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB

029 2022 2008 wales@samaritans.org

* O 7pm i 11pm yn unig, 7 diwrnod yr wythnos. Gellir galw'r rhif hwn am ddim.

Noddwr: Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru. Sefydlwyd yn 1953 gan y diweddar Brebendwr Dr Chad Varah CH CBE. Elusen gofrestrdedig yng Nghymru a Lloegr rhif 219432, yn yr Alban rhif SC040604 a rhif SC009843, ac yn Iwerddon rhif CHY11880. Corfforwyd yng Nghymru a Lloegr yn 1963 fel cwmni cyfyngedig drwy warant rhif 757372, ac yn Iwerddon rhif 450 409.



116 123 **DI-DÂL**

Mae galw'r rhif hwn yn **DDI-DÂL**

0808 164 0123*

Llinell Gymraeg



jo@samaritans.org



samaritans.org

SAMARITANS

CYMRU